Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

Mae'r nodiadau hyn wedi'u cynllunio i'ch helpu i gwblhau'r ffurflen gais ac i egluro sut rydym yn recriwtio'n deg, yn gynhwysol, ac yn unol â safonau Hyderus o ran Anabledd.

1. Cwblhau'r Ffurflen Gais

- Cwblhewch bob adran mor llawn â phosibl, gan ddefnyddio iaith glir a chryno
- Nid oes angen i chi gyflwyno CV oni bai ein bod yn gofyn yn benodol am un
- Os oes angen mwy o le, gallwch barhau â'ch atebion ar ddalen ar wahân. Nodwch eich enw a phennawd yr adran ar bob tudalen ychwanegol
- Rydym yn asesu ceisiadau yn erbyn y **meini prawf hanfodol** a restrir yn y fanyleb person

2. Recriwtio Teg a Chynhwysol

Er mwyn sicrhau tegwch:

- Caiff manylion personol a gwybodaeth monitro cydraddoldeb eu tynnu cyn llunio rhestr fer
- Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch sgiliau, eich profiad a'ch addasrwydd ar gyfer y rôl a welir gan baneli dethol
- Rydym yn defnyddio meini prawf gwrthrychol i leihau rhagfarn a hyrwyddo cyfle cyfartal

3. Anabledd, Iechyd ac Addasiadau Rhesymol

Rydym yn **Gyflogwr Hyderus o ran Anabled** ac wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau i ymgeiswyr anabl.

- Nid oes rhaid i chi ddatgelu anabledd oni bai eich bod yn dewis gwneud hynny
- Os byddwch yn datgelu, **ni fydd** y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau dethol
- Defnyddir y wybodaeth yn unig i ystyried **addasiadau rhesymol**

Gall addasiadau rhesymol gynnwys, er enghraifft:

- Fformatau cais amgen (Darllen Hawdd, print bras, digidol)
- Amser ychwanegol ar gyfer asesiadau neu gyfweliadau
- Addasiadau i leoliad, fformat neu gwestiynau'r cyfweliad
- Addasiadau yn y gweithle megis offer, oriau gwaith neu'r amgylchedd

Os ydych yn eich adnabod eich hun fel person anabl ac yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl, cynigir cyfweliad i chi o dan ein **cynllun cyfweliad gwarantedig**.

4. Euogfarnau Troseddol

Dim ond **euogfarnau troseddol heb eu disbyddu** y mae'n ofynnol i chi eu datgelu.

- Ni fydd cael cofnod troseddol yn eich eithrio'n awtomatig o gyflogaeth
- Caiff pob datgeliad ei ystyried yn unigol ac yn gyfrinachol
- Asesir y wybodaeth mewn perthynas â dyletswyddau'r rôl

Os oes angen datgelu, dylid darparu manylion yn unol â'r cyfarwyddiadau ac ni fyddant yn cael eu rhannu â'r panel dethol.

5. Hawl i Weithio yn y DU

Rhaid i bob ymgeisydd fod â'r hawl gyfreithiol i weithio yn y Deyrnas Unedig.
Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, gofynnir i chi ddarparu dogfennau priodol, megis:

- Pasbort
- Tystysgrif geni
- Trwydded breswyl biometrig
- Dogfennau eraill a gymeradwyir gan y Swyddfa Gartref

6. Hanes Cyflogaeth

Darparwch fanylion eich cyflogaeth, hyfforddiant neu brofiad perthnasol gan ddechrau gyda'r mwyaf diweddar.

- Gall hyn gynnwys gwaith cyflogedig, gwaith gwirfoddol, lleoliadau neu interniaethau
- Ni fydd seibiannau gyrfa, cyfrifoldebau gofalu, na chyfnodau o salwch yn anfantais i'ch cais

7. Addysg a Chymwysterau

Rhestrwch unrhyw gymwysterau sy'n berthnasol i'r rôl.

- Efallai y gofynnir i chi ddarparu tystysgrifau os cewch wahoddiad i gyfweliad
- Caiff cymwysterau neu brofiad cyfwerth eu hystyried lle bo'n briodol

8. Sgiliau, Profiad a Rhinweddau Personol

Dyma'r rhan bwysicaf o'r ffurflen gais.

- Defnyddiwch yr adran hon i ddangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol/dymunol
- Canolbwyntiwch ar eich cryfderau, eich sgiliau trosglwyddadwy a'ch cyflawniadau
- Gallwch dynnu ar waith, addysg, gwirfoddoli neu brofiad bywyd

Rydym yn gwerthfawrogi potensial yn ogystal â phrofiad.

9. Geirdaon

Darparwch ddau ganolwr a all roi sylwadau ar eich addasrwydd ar gyfer y rôl.

- Fel arfer, dylai un canolwr fod yn gyflogwr diweddaraf neu diwtor
- Dim ond ar ôl cynnig cyflogaeth amodol y gofynnir am eirdaon, oni nodir yn wahanol

10. Gwybodaeth Monitro Cydraddoldeb

Mae cwblhau'r ffurflen monitro cydraddoldeb yn wirfoddol.

- Ni chaiff y wybodaeth hon ei weld gan y panel dethol
- Caiff ei ddefnyddio'n ddienw i'n helpu i fonitro tegwch a gwella ein harferion recriwtio

11. Diogelu Data

Caiff yr holl wybodaeth a ddarperir ei thrin yn unol â GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018.

- Cedwir gwybodaeth recriwtio am hyd at 6 mis os nad ydych yn llwyddiannus
- Os ydych yn llwyddiannus, bydd gwybodaeth berthnasol yn ffurfio rhan o'ch cofnod personél
- Cedwir data'n ddiogel ac mae'n hygyrch i staff awdurdodedig yn unig

12. Cefnogaeth a Hygyrchedd

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu os oes ei hangen arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch â Recriwtio gan ddefnyddio eich dull dewisol.

Rydym wedi ymrwymo i wneud ein proses recriwtio yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn gefnogol i bawb.